Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn Cyfarfod Cychwynnol

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas** |
| **Cyfeirnod yr achos** | **EN0110036** |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **12 Mai 2026** |
| **Cyfarfod gyda** | **Gwynt Glas Offshore Wind Farm Limited** |
| **Lleoliad** | **Microsoft Teams** |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

DRAFT

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeisydd (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at 6 mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod cychwynnol, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno.

## 1. Y datblygiad arfaethedig

### Disgrifiad manwl o'r datblygiad arfaethedig

Mae Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas yn fenter ar y cyd rhwng EDF power solutions UK and Ireland ac ESB (y Bwrdd Cyflenwi Trydan), ac mae DP Energy yn gweithredu fel partner datblygu neilltuedig. Byddai'r prosiect wedi'i leoli tua 42 cilometr (km) oddi ar arfordir de-orllewinol Sir Benfro yn y Môr Celtaidd, gyda chapasiti disgwyliedig o hyd at 1.5 gigawat (GW). Mae ardal yr aráe yn rhychwantu tua 369 o gilometrau sgwâr (km2). Byddai'r prosiect yn cynnwys seilwaith cynhyrchu alltraeth ac asedau trosglwyddo cysylltiedig. Disgwylir iddo gysylltu â'r grid yn Is-orsaf arfaethedig Llandyfaelog yn Sir Gaerfyrddin (sydd i'w hadeiladu gan y Grid Cenedlaethol), a byddai angen gosod ceblau allforio tanddaearol rhwng y lanfa a'r pwynt cysylltu â'r grid. Mae sawl opsiwn ar gyfer llwybr y ceblau ar y tir a'r lanfa yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac mae is-orsaf newydd ar y tir yn debygol o gael ei lleoli ger is-orsaf arfaethedig y Grid Cenedlaethol yn

Llandyfaelog. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn ceisio Trwydded Forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (ar ran Gweinidogion Cymru) o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Esboniodd yr ymgeisydd fod y datblygiad ar gam cynnar a bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn debygol o fod yn awdurdod lleol cynhaliol. Mae'r ymgeisydd yn trafod pwynt cysylltu'r is-orsaf â'r Grid Cenedlaethol, sy'n debygol o fod yn Llandyfaelog. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu defnyddio dulliau gosod ceblau safonol a datrysiadau di-ffos, lle bo modd. Bydd hyn yn ddarostyngedig i ddylunio manwl. Dywedodd yr ymgeisydd y bydd llwybrau'r ceblau a'r technegau gosod yn cael eu cadarnhau ar adeg cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO).

Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn ceisio cydsyniad ar gyfer 66 i 118 o dyrbinau, yn dibynnu ar faint y tyrbin a ddewisir. Byddai'r uchafswm uchder i flaen y llafn yn 310m. Mae'r ymgeisydd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ystod eang o dechnolegau ar gyfer y sylfeini, gan gynnwys llinellau angori a systemau angori. Bydd yr ymgeisydd yn monitro'r prosiectau arddangos arnofiol cyn penderfynu pa dechnoleg i'w datblygu. Bydd yr ymgeisydd yn ceisio cydsyniad ar gyfer hyd at dri phlatfform is-orsaf alltraeth ac efallai platfform digolledu pwynt canol adweithiol.

Holodd yr Arolygiaeth a yw'r prosiect i gyd yn nyfroedd Cymru. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ar ôl y cyfarfod fod y ffin gwmpasu yn cynnwys dyfroedd Lloegr.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ystyried pa elfennau o'r datblygiad arfaethedig sy'n ddatblygiad annatod neu gysylltiedig yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008, a sicrhau bod hyn yn cael ei ddisgrifio yn y memorandwm esboniadol.

**Ymgysylltu'n gynnar â chyrff statudol, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill hyd yma**

Gan fod y datblygiad ar gam cynnar o hyd a bod yr ymgeisydd yn aros am gadarnhad ynglŷn â'r safle cysylltu â'r grid, mae wedi dechrau ymgysylltu â'r awdurdodau lleol canlynol:

- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd a yw'n ystyried defnyddio Datganiadau Crynhoi Prif Feysydd Anghytundeb (PADSS) i gynorthwyo Datganiadau Tir Cyffredin (SoCGau) gydag awdurdodau lleol neu gyrff eraill y cysylltwyd â nhw. Esboniodd yr ymgeisydd fod PADSS yn cael eu hystyried ac y bydd SoCGau yn cael eu datblygu wrth i'r prosiect symud ymlaen.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad yw wedi ymgysylltu'n ffurfiol â'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) eto. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr ymgeisydd fod yr MMO yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio y codir tâl amdano, felly mae'n bwysig dechrau trafod gyda nhw cyn gynted â phosibl, ynghyd â Natural England a chyrff cyhoeddus eraill.

Rhestrodd yr ymgeisydd gyrff eraill yr oedd wedi ymgysylltu â nhw, gan gynnwys CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Nododd yr ymgeisydd hefyd ei fod yn cynnal trafodaethau rheolaidd â chyrff pysgota.

Nid oes unrhyw "grwpiau eraill anodd eu cyrraedd" wedi'u hamlygu ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn ceisio pwerau Caffael Gorfodol. Mae'r broses cyfeirnodi tir ar gam cynnar, ond mae'r ymgeisydd yn bwriadu dod i gytundeb â thirfeddianwyr lle y bo'n bosibl.

**Cyfyngiadau a materion amgylcheddol**

Nododd yr ymgeisydd sawl cyfyngiad ar y tir, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Arfordir Pen-bre, tirweddau hanesyddol, Arfordir Treftadaeth De Sir Benfro ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr. Nodwyd ardaloedd o goetir hynafol hefyd gyda phocedi o goetir hynafol ar draws y ffin gwmpasu, ac yn ddwysach o amgylch Amroth a Llanddowror. Amlygwyd ardaloedd perygl mwyngloddio i'r dwyrain a'r gorllewin o'r ffin gwmpasu gan yr Awdurdod Glo.

Rhestrodd yr Ymgeisydd sawl cyfyngiad amgylcheddol alltraeth, gan gynnwys:
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin
- AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro
- AGA a safle Ramsar Cilfach Tywyn
- Parth Cadwraeth Morol (PCM) Gogledd-orllewin Ynys Wair
- PCM Ynys Wair
- PCM Morte Platform
- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd
- ACA Dynesfeydd Môr Hafren
- ACA Gorllewin Cymru Forol
- ACA Sir Benfro Forol

Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi arolygu defnydd o safleoedd ar lefel uchel. Gwnaethant hefyd restru nifer o safleoedd yr MoD yn yr ardal, gan gynnwys:
- Castell Martin
- Maenorbŷr
- Pentywyn
- Pen-bre
- Ardal Gweithgarwch Awyr Dwys (AIAA) Ardal Perygl a Reolir (MDA) De-orllewin Lloegr
- Ardal Ymarfer Fflyd De Lloegr

**Arolygon Amgylcheddol**

Trafododd yr ymgeisydd waith arolygu amgylcheddol sy'n parhau:

**Arolygon ar y tir sydd wedi'u cynllunio**
- Mae arolygon adar arfordirol yn mynd rhagddynt a disgwylir iddynt barhau tan chwarter cyntaf 2028.

- Mae arolygon ecolegol rhagarweiniol ar y tir wedi'u cynllunio ar gyfer diwedd 2026, ac mae arolygon ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2027.
- Mae arolygon adar ar y tir wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2027.
- Mae arolygon morlun, tirwedd a ffotograffiaeth weledol wedi'u cynllunio ar gyfer gaeaf 2026/haf 2027

**Arolygon alltraeth sydd wedi'u cynllunio**

- Mae arolwg geoffisegol o'r coridor ceblau allforio wedi'i gynllunio ar gyfer y gwanwyn 2027, a ddilynir gan arolwg ecoleg fenthig.
- Mae arolygon morgludiant a mordwyo wedi'u cynllunio ar gyfer gaeaf 2026/haf 2027.
- Bwriedir cynnal cyfres fanylach o arolygon geoffisegol a geotechnegol (gan gynnwys arolygon ordnans heb ffrwydro (UXO) yn ystod 2029-2032.

**Cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

Dywedodd yr ymgeisydd wrth yr Arolygiaeth ei fod yn bwriadu cyflwyno cais cwmpasu ym mis Mehefin 2026. Atgoffodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ddarparu'r shapefile GIS o leiaf 10 niwrnod cyn y cais cwmpasu a bod angen i'r ffi cyn-ymgeisio gael ei thalu cyn cyflwyno'r adroddiad cwmpasu.

**Y rhaglen gydsynio a chyflwyniad i'r ddogfen rhaglen cyn-ymgeisio**

- Ymgynghoriad cychwynnol yn ystod ail chwarter 2026
- Cwmpasu ym mis Mehefin 2026
- Ymgynghoriad ychwanegol yn ystod pedwerydd chwarter 2027
- Ymgynghoriad wedi'i dargedu yn ystod ail chwarter 2028
- Cyflwyno cais DCO ym mis Medi 2028

Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd gweminarau gyda chynghorau lleol yn cael eu cynnal cyn hir yn rhan o weithgareddau ymgynghori cychwynnol.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn datblygu rhaglen y prosiect ymhellach pan fydd arweiniad yn cael ei gyhoeddi ar ôl gweithredu Deddf Cynllunio a Seilwaith 2025.

Trafododd yr ymgeisydd haenau'r gwasanaeth cyn-ymgeisio, prif nodweddion y gwasanaeth gan gynnwys gwasanaeth adolygu dogfennau drafft a defnyddio templedi. Cyfeiriodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd at y Prosbectws i gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth cyn-ymgeisio a dogfennau ategol y gallai'r ymgeisydd ddewis eu defnyddio. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr ymgeisydd os bydd yn dymuno newid yr haen gwasanaeth cyn-ymgeisio pan fydd wedi'i chadarnhau, bydd angen iddo roi tri mis o rybudd.

**Y Gymraeg**

Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn cydymffurfio â holl ofynion y Gymraeg, gan gynnwys cyfieithu dogfennau annhechnegol a gwybodaeth a deunydd ymgynghori dwyieithog.

## Penderfyniadau penodol/ gwaith dilynol sy'n ofynnol?

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bydd yr ymgeisydd yn darparu dogfen rhaglen wedi'i diweddaru gydag ymgysylltiad cyn-ymgeisio a gynlluniwyd gyda'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys Cynllun Tystiolaeth.
- Bydd yr ymgeisydd yn cadarnhau a yw'r dyddiad cwmpasu'n debygol o newid.
- Bydd yr Arolygiaeth yn anfon cadarnhad o'r haen gwasanaeth cyn-ymgeisio.

## Atodiad A

### Y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod

| Sefydliad | Rôl |
|---|---|
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Rheolwr Gweithrediadau |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Arweinydd Gweithrediadau |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Arweinydd Gweithrediadau |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Rheolwr Achos |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Swyddog Achos |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Gwasanaethau Amgylcheddol – Arweinydd Gweithrediadau |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Ymgynghorydd Amgylcheddol Cyswllt |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Uwch Ymgynghorydd Amgylcheddol |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Cynghorydd Amgylcheddol |
| Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas | Cyfarwyddwr Datblygu |
| Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas | Rheolwr Cydsyniad a'r Amgylchedd |
| Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas | Cydlynydd DCO |
| Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas | Rheolwr Cydsyniadau Ar y Tir |
| Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas | Rheolwr Cydsyniadau Alltraeth |